



**Executive Summary of Key points from  
Wylfa SSG Zoom Meeting 14 October 2021**

1. The Chairman drew members attention to the forthcoming events:-
  - Magnox Chairs Meeting - 5 November 2021
  - NDA Virtual Summit - 26 November 2021
  - SSG Chairs and Vice Chairs Quarterly Update Meeting - 17 December 2021
2. Stuart Law presented the Wylfa Site Director's Report circulated previously which also included details of the Socio-Economic funding awarded since the last meeting. He was pleased to report that despite the ongoing challenges, the site remains operational, and projects are progressing well, safely and compliantly.
3. Nuclear Decommissioning Authority (NDA) Report presented by Jonathon Jenkin who will be taking up a two-year secondment for BEIS imminently. He also introduced Simon Napper as his replacement.
5. Office for Nuclear Regulation (ONR) report presented by Ian Dallas
7. Natural Resources Wales (NRW) / Environment Agency (EA) update report was presented by Rona Arkle



## Minutes of the Wylfa Site Stakeholder Group Thursday 14 October 2021, via ZOOM

### Present:

Cllr Aled M Jones	IOACC Twrcelyn Ward and SSG Chair
D Stuart Law	Site Director, Magnox
Mair Jones	Communications Regional Lead, Magnox
Cllr Ken Hughes	IOACC Talybolion Ward
Cllr Dafydd Griffiths	Llanelian Community Council
Jonathon Jenkin	NDA
Simon Napper	NDA
Cllr Derek Owen	Llanbadrig Community Council
Cllr Gwilym O. Jones	IoACC
Mark Elsworth	Magnox
Cllr Gordon Warren	Amlwch Town Council
Cllr John Griffiths	IoACC
Ifer Gwyn	Horizon N P
Rona Arkle	Environment Agency
David Wilby	Natural Resources Wales
Ian Dallas	ONR
Tim Poole	CPRW
Bill Hamilton	NDA
Audrey Serandour	Research Assistant Universite de Haute-Alsace
Jill Callander	SSG Secretariat
Ann Llwyd	Translator - Cymen
Sydna Roberts	Minute taker – Cymen
Ruth Corney	Marick Communications

### Apologies:

Cllr R O Jones	Amlwch
Michelle Humphreys	Magnox
Cllr Gwilym Morris	Rhosybol Community Council

## **1 Welcome and Receive Apologies for Absence**

The Chair welcomed all to the meeting at 2.00 pm and apologies were noted as above.

He welcomed

- Audrey Sérandour, Research Assistant in Geography at Université de Haute-Alsace (France) and wished her well in her studies.
- Mr Simon Napper NDA who will be taking over from Jonathan Jenkin who is about to undertake a secondment to BEIS for 2 years.

He sent the group's condolences to Michelle Humphreys who has recently suffered a bereavement.

Colleagues from Marick Communications guided members through the process of conducting the meeting via ZOOM.

## **2. Approval of Minutes of the Meeting held**

The minutes had been circulated prior to the meeting. The minutes were received and accepted as a true record.

## **3 Matters Arising from the Previous Minutes**

None raised

## **4 SSG Chairman's Report**

The Chair noted that there had not been any reportable meetings over the summer months but referred to the following upcoming events.

- Magnox Chairs Meeting – 5 November 2021
- NDA Virtual Summit, 26 November 2021
- Magnox Chairs and Vice Chairs Quarterly Update Meeting 17 December 2021

He referred to the commitment by Magnox to provide the secretariat for all SSG meetings and thanked Jill Callander for her valued support. He also referred to her being unwell over the summer months due to COVID 19 and wished her and her husband a full and speedy recovery.

## **5 Wylfa Site Director's Report**

Stuart Law presented his comprehensive report, copies of which had been circulated prior to the meeting. The report is summarised as follows: -

### **COVID 19**

- On site it is still mandatory to wear face coverings when in communal areas, using air purifiers in office spaces and continuing to maintain 2 meters distance.
- A handful of positive cases within the workforce and contractors recorded recently and appropriate actions were taken.
- No longer using the test centre, which was set up on site, but encouraging staff to use home testing Lateral Flow Test kits and test themselves at home. The recommendation is that everyone tests themselves twice a week, Sunday evening and Wednesday before coming to site. SL wished to thank the group of volunteers

who had been running the Lateral Flow Test Centre for the last few months in addition to their normal roles.

### **Safety performance**

Total recorded incident rate (TRIR): 0.00

Days away case rate (DACR): 0.00

No of days since a lost time accident: 162 (21.09.21)

Whilst Wylfa has maintained an excellent safety record, three people were injured on Magnox sites earlier in the year. Small changes to the work or work environment were a factor and could have been prevented had the change in configuration or conditions been challenged. A companywide safety campaign and stand down was held in May to refocus minds on the risks of being distracted.

### **People**

- All of security staff back on-site full time.
- Currently 180 Magnox employees and nine agency supplied workers at Wylfa. This figure is inclusive of 11 new starters following a recent recruitment exercise.
- 1 new maintenance apprentice who started at Wylfa earlier this month.
- Review of office space has been carried out and a room for 'hot desks' have been made available to book for any Magnox Support Office staff who continue to work from home.

### **Site progress and achievements**

#### Deaerator Floor

- Contract to remove all Asbestos Containing Material from the Deaerator Floor area of the Turbine Hall was awarded to Altrad.
- Altrad will be the Principal Contractor for this contract, a first at Wylfa, meaning they were appointed in writing by Magnox to plan, manage, monitor and deliver this project. The team have mobilised a dedicated project team, produced all the necessary documentation, procured/ hired equipment and materials and set up the work area in readiness for the large scaffold structures which are to be erected
- Asbestos equipment was transported from Dungeness to Wylfa for re-use which saved the project almost £80,000.

#### Post Operational Clean Out

- Project involved the removal of the 110v gas turbine switch gear batteries and the ongoing removal of legacy items from the reactor building.
- Breathing apparatus training facility has been emptied.
- Nine old portable cabins were purchased and removed by OBR and Caernarfon Commercials to refurbish and reuse.
- Ten new sustainable Porta cabins with sensor lights, double glazed plastic windows, ventilation fans and painted with marine paint to withstand the coastal weather arrived as replacement for contractor use.

#### Infrastructure Removal

- Over its 40-year operational lifetime the site has accumulated significant radiologically contaminated and conventional waste within the various plant areas and offices.
- The waste accumulated ranged from contaminated spares and equipment that were used during vessel entries to conventional waste such as paperwork and furniture within offices, all of which must be removed.

Mr Law reported on the planning application that had been presented for phase 1 of the demolition works on site, the demolition to be completed over the next 12 months covers a number of temporary buildings such as the old training block, and permanent structures like the CO2 plant.

### **Electrical Overlay System**

- Scottish Power Energy Networks is the agreed contractor for the offsite work
- Ecology surveys completed on the proposed cable route for the off-site supply.
- Work is now underway with the tender process to select a supplier for the onsite distribution works.
- Site continues to develop the rationalisation scope of the 415v boards.

### **Intermediate Level Waste Characterisation**

- Work is being carried out to characterise waste in plant areas that have been highlighted as 'hot spots' around site and could possibly be Intermediate Level Waste.
- The current Radioactive Waste Inventory for site highlights the need for 11 Ductile Cast Iron Containers to hold and store the known Intermediate Level Waste.
- Current strategy is to compliantly store ILW on-site until there is a Geological Disposal Facility (GDF) available somewhere in the UK.
- On-site the designing of an ILW store, similar to that undertaken at other locations within the Magnox fleet.
- There are a number of packages of work currently at different stages of analysis and with this in mind the Project is targeting a mid-year 2022 milestone for knowing the true ILW inventory for Wylfa.

### **Reuse of redundant pipework**

- In June 21 Ramco, asset disposal specialists, removed several sections of redundant pipework, associated with the emergency feed supply to the raw feed water tanks, for future reuse and to return value to the NDA.
- Approximately 100 lengths of pipework was loaded safely onto the Ramco transport, along with a set of large Avery scales.
- identified and acknowledged that our redundant equipment can be reused and return value to the company to enable further decommissioning activities

### **Socio-Economic Report**

Mair Jones highlighted the following: -

- Magnox has supported Môn CF in the past with the 'Journey to Work Programme' and securing two roles in the Academy whilst transitioning to new premises. These roles are now sustainable beyond the Magnox funding. The funding allowed 450 participants to gain qualifications across Anglesey and moved 240 people into work in 2020/21 alone.
- Môn CF secured funding to purchase the empty old Barclays Bank in Amlwch and with help through the socio-economic scheme recently had approval of £98,000 from Magnox to assist with the transformation into a 'multi agency hub', creating four additional jobs.
- Cemaes Bay Football Club junior section recently received £535 from the Magnox socio-economic scheme to purchase additional training equipment. 60 new balls and two goals helped meet the demand of increased members from 30 children to 80 and welcomed an additional younger age group.

The Chair thanked Mr Law and Mair Jones for their updates. He also enquired as to the possibility of raising the limit for Good Neighbour funding from £1K to £1.5K / £2K. There was a consensus within the group to make this an official request to be presented to Magnox. **ACTION - Mair Jones and Bill Hamilton to take this forward.**

## **Question and Answer Session**

Cllr. Derek Owen, as Chair of Llanbadrig Community Council, wished to commend the Mr Law and his staff for ensuring the safety of the residents of Llanbadrig. He also referred to speculations that Rolls Royce was showing an interest in establishing and SMR on site. SL confirmed that he had not spoken to Rolls Royce regarding SMR's. He did however note that he had responded to questions by Shearwater, an US Company, as has been reported in the media previously.

Cllr Ken Hughes welcomed the news regarding apprenticeships and enquired whether these were local young people. SL confirmed that all were residents of Ynys Môn.

Cllr G O Jones also welcomed the developments regarding apprenticeships.

Cllr Dafydd Griffiths enquired as to the storage of ILW. SL reiterated that the project will confirm whether the true inventory is more and if so, how much more to enable suitable storage facilities for the containers to be built as the current strategy is to compliantly store ILW on-site until there is a Geological Disposal Facility (GDF) available somewhere in the UK. He also noted that according to the NDAs planning assumption, the GDF could be available in 20 years, noting that this is currently an assumption. Mr Law also confirmed to the members that whilst he could give no assurance on the date of the GDF being available that any ILW would always be stored in a safe state at Wylfa.

## **6 Nuclear Decommissioning Authority**

Mr J Jenkin was welcomed to the meeting and introduced his colleague Simon Napper. JJ gave a brief summary of the report previously circulated to members.

### **COVID 19**

- Workforce still largely working from home
- Progressive, managed return to offices from 2 August 2021
- Will continue to adopt a mix of home and office working based on a flexible approach and business need
- Progressive return to more face-to-face external engagement based on discussion with stakeholders

### **Annual Report and Accounts**

- Published on 21 July
- Continued progress despite impact of COVID-19
  - Hazard reduction at Sellafield and Dounreay
  - Overseas' waste returns
  - New Group structure
- Total expenditure lower than forecast - £3.059bn against £3.486bn
- £612m income

## **NDA Strategy**

- NDA Strategy 4 published on 18 March following Ministerial approval
- Draft Strategy published for 12-week public consultation from 17 August – 8 November
- 71 responses to consultation
- Stakeholder response document published alongside Strategy

## **Draft Business Plan 2021-24**

- Published on 22 March
- Consultation from December to February
- Sets out key activities and progress across the NDA group for next three financial years in line with Spending Review settlement
- 16 consultation responses – summary included upfront in Business Plan

## **NDA Sustainability Report**

- First NDA Sustainability Report published on 8 March
- Investing in people, communities and protecting the environment for long-term future use
- Identifies key opportunities and projects to improve sustainability across NDA group

## **Gender Pay Gap Report**

- Gender pay gap reports for NDA group and corporate centre on 24 March
- Across the group, the pay gap is 13.1% (mean) and 12.4% (median) – small decrease compared with previous year
- 5 focus areas to address gender pay gap

## **NDA Group Inclusion Strategy**

- NDA has published first group inclusion strategy covering 2021-25
- Builds on first NDA equality, diversity and inclusion strategy launched in 2018
- Five areas and commitments that will prioritise how we embed inclusion in our group culture
- Includes goals against which our progress will be measured and used to report progress

## **NDA Group Development**

- New top team announced for NDA group – NDA Group Leadership Team (GLT)
- Aligns with move to new subsidiary model to maximise benefits of working as a group
- Comprises NDA corporate centre CEO and executives and CEOs/MDs of group operating companies
- Dr Adrian Simper appointed to joint roles of NDA Chief Scientific Advisor and Chief Nuclear Advisor to BEIS

## **Low Level Waste Repository**

- Became NDA subsidiary operating company on 12 July
- Follows Dounreay becoming NDA subsidiary in March
- Significant milestone in building a stronger NDA Group
- Step towards creating a single waste division early next year bringing together LLW Repository and Radioactive Waste Management (RWM)

## **Dounreay**

- Dounreay transferred to NDA ownership on 1st April 2021
- Further step in creating new NDA group of operating companies
- Greater collaboration between NDA operating companies and improved focus on delivering our mission
- Announced intention to join Dounreay with Magnox

## **Nuclear Transport Solutions**

- New NDA group transport company launched on 30 April
- Brings together all transport businesses into single organisation – Direct Rail Services, International Nuclear Services and Pacific Nuclear Transport Ltd
- NTS Chair, Wanda Goldwag, appointed on 18 May

## **NDA to Decommission Advance Gas Reactor sites**

- Directed by government to take on future ownership of seven EDF AGR sites for decommissioning
- Magnox Ltd will be responsible for decommissioning the seven sites following defueling
- Testament to skills, knowledge and experience in NDA group – and government confidence in NDA's capability
- We look forward to working with EDF Energy to ensure the seamless transfer of stations in the coming years

## **Theddlethorpe Working Group**

- RWM welcomes the formation of Theddlethorpe Working Group
- Provides a platform for starting local discussions on the possible siting of a geological disposal facility (GDF)
- Marks the starting point in an exploratory, fact-finding and discussion process
- Two existing working groups in Cumbria – Copeland and Allerdale

## **NDA Value Framework**

- Latest version published in October
- Defines the factors against which strategic options are evaluated and aims to ensure we deliver value for money
- Transparency in our decision-making
- Value for money not about achieving the lowest cost – it's about using resources in a way that maximises value

## **Magnox Inquiry and Departmental Review Report**

- Government and NDA have published their responses to the Magnox Inquiry and Departmental Review (Holliday Report)
- Reports' recommendations welcomed
- Significant progress since 2017:
  - New operating model
  - Strengthened legal, commercial and assurance functions
  - Group Leadership Team

## **NDA Innovation Competition**

- 'Sort and seg' competition launched in July 2020
- Invite technological solutions to sort and segregate radioactive waste at oldest nuclear sites
- Value increased from £3.9m to £5.5m
- 5 companies awarded contracts each worth up to £900k to build demonstrators for



their ideas

- Set to work on mixed pile of radioactive wastes – increase recycling rates, reduce no. of waste disposal containers and reduce hazards
- Successful companies are:
  - Cavendish Nuclear Ltd
  - Barnnon Ltd
  - Create Technologies Ltd
  - Atkins Ltd
  - Veolia Nuclear Solutions (UK) Ltd

Finally JJ shared details of the NDA's Supply chain event as follows:-

- New date – 3 February 2022 – at The International Centre, Telford
- Postponed from June 2020 due to Covid pandemic
- Supply Chain Award's ceremony on same day – deadline for applications at 12:00 on 1 October
- Largest supply chain event in Europe with 1,700 visitors and over 300 suppliers

### **Question and Answer session**

None received

JJ was thanked for his presentation and wished well in his 2-year secondment to BEIS

## **7 Office for Nuclear Regulation Update**

Mr Ian Dallas was welcomed to the meeting and presented as follows:-

- The ONR offices has reopened but working from home remains in the main.
- Face to face inspection have resumed
- No compliance issues in Wylfa with all Inspections since the last report rated green.

### **Question and Answer Session**

None raised

## **8 Natural Resources Wales / Environmental Agency Update**

David Wilby NRW and Rona Arckle, EA were welcomed to the meeting. RA stated that DW had taken over from Iwan Williams as the NRW Operational Lead for both Wylfa and Trawsfynydd sites.

RA went on to summarise the report previously circulated to members.

She noted that:

- The report covers the period from January to August 2021. During this time, the majority of our regulatory activity has been carried out remotely due to the ongoing restrictions imposed by the UK and Welsh governments.
- Following the return to site in August 2020, routine maintenance has re-started, and the backlog of work has been largely completed.
- Monitoring and reporting of radioactive discharges have resumed, as has the environmental monitoring programme.
- Waste consignments have restarted, and monitors used to clear waste as out of scope of the radioactive substances' regulations have been replaced following issues which developed during the pause.
- A Quality Plan has been developed for any future pause and restart; this takes into account learning from the operational pause in 2020
- We carried out an inspection on environmental leadership and culture in June 2021, partially via MS Teams meetings and partially on-site.

- Radioactive discharges to air and water from Wylfa remained well below permitted limits in this reporting period.
- Non-radioactive discharges to water were also within permitted limits.
- Environmental monitoring - in the last quarter of 2020, two TLDs<sup>1</sup> located to the north west of the site recorded average daily dose rates that were higher than usual. There was no change in the pattern of discharges from Wylfa and no elevated results were recorded on the TLDs at the site perimeter, so this does not appear to be related to any activities taking place on the site.
- All other environmental monitoring results were in line with those from previous periods and show no cause for concern.

### **Question and Answer session**

None raised

RA and DW were thanked for their attendance and update.

### **12 Open Forum Question and Answer Session – none raised**

### **13. Any Other Business**

The Chair noted that Ifor Gwyn had been present for part of the meeting and thanked him for his work with Horizon and the SSG and wished him well for the future.

The Chair thanked all for their attendance and closed the meeting at 15:05

**Dates Next Meetings – 10 February 2022  
08 September 2022**



**Crynodeb Gweithredol o'r Prif bwyntiau o  
Cyfarfod Zoom Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa 14 Hydref 2021**

1. Tynnodd y Cadeirydd sylw'r aelodau at y digwyddiadau canlynol:-
  - Cyfarfod Cadeiryddion Magnox - 5 Tachwedd 2021
  - Uwchgynhadledd Rithiol yr NDA - 26 Tachwedd 2021
  - Cyfarfod Diweddarau Chwarterol Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Grŵp Rhanddeiliaid - 17 Rhagfyr 2021
2. Cyflwynodd Stuart Law Adroddiad Cyfarwyddwr Safle Wylfa a oedd wedi'i ddsbarthu'n flaenorol ac a oedd hefyd yn cynnwys manylion y cyllid Economaidd-Gymdeithasol a ddyfarnwyd ers y cyfarfod diwethaf. Roedd yn falch o ddweud, er gwaethaf yr heriau parhaus, bod y safle'n dal yn weithredol a bod prosiectau'n mynd rhagddynt yn dda ac yn ddiogel, gan gydymffurfio'n llawn.
3. Adroddiad yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) a gyflwynwyd gan Jonathon Jenkin a fydd yn cymryd secondiad dwy flynedd i BEIS yn fuan. Cyflwynodd Simon Napper hefyd a fydd yn cymryd ei le.
5. Adroddiad y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) a gyflwynwyd gan Ian Dallas
7. Cyflwynwyd adroddiad diweddarau Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd gan Rona Arkle



## **Cofnodion Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa Dydd Iau 14 Hydref 2021, drwy ZOOM**

### **Yn bresennol:**

Y Cyng. Aled M Jones	Cyngor Sir Ynys Môn, Ward Twrcelyn a Chadeirydd y Grŵp Rhanddeiliaid
D Stuart Law	Cyfarwyddwr y Safle, Magnox
Mair Jones	Arweinydd Cyfathrebu Rhanbarthol, Magnox
Y Cyng. Ken Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn, Ward Talybolion
Y Cyng. Dafydd Griffiths	Cyngor Cymuned Llanelian
Jonathon Jenkin	NDA
Simon Napper	NDA
Y Cyng. Derek Owen	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Y Cyng. Gwilym O. Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Mark Elsworth	Magnox
Y Cyng. Gordon Warren	Cyngor Tref Amlwch
Y Cyng. John Griffith	Cyngor Sir Ynys Môn
Ifer Gwyn	Horizon N P
Rona Arkle	Asiantaeth yr Amgylchedd
David Wilby	Cyfoeth Naturiol Cymru
Ian Dallas	ONR
Tim Poole	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Bill Hamilton	NDA
Audrey Serandour	Cynorthwydd Ymchwil Universite de Haut-Alsace
Jill Callander	Ysgrifenyddiaeth Grŵp Rhanddeiliaid y Safle
Ann Llwyd	Cyfieithydd - Cymen
Sydna Roberts	Cofnodydd – Cymen
Ruth Corney	Marik Communications

### **Ymddiheuriadau:**

Y Cyng. R O Jones	Amlwch
Michelle Humphreys	Magnox
Y Cyng. Gwilym Morris	Cyngor Cymuned Rhosybol

## 1 **Croeso a Derbyn Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod am 2.00 pm a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod.

Croesawodd

- Audrey Sárandour, Cynorthwydd Ymchwil mewn Daearyddiaeth yn Université de Haute-Alsace (Ffrainc) a dymunodd yn dda iddi yn ei hastudiaethau.
- Mr Simon Napper NDA a fydd yn cymryd yr awenau gan Jonathon Jenkin sydd ar fin cymryd secondiad i BEIS am 2 flynedd.

Anfonodd y grŵp eu cydymdeimlad at Michelle Humphreys sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar.

Arweiniodd cydweithwyr o Marick Communications yr aelodau drwy'r broses o gynnal y cyfarfod drwy Zoom.

## 2. **Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd**

Roedd y cofnodion wedi eu cylchredeg cyn y cyfarfod. Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir.

## 3 **Materion yn Codi o'r Cofnodion Blaenorol**

Ni chodwyd unrhyw fater

## 4 **Adroddiad Cadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle**

Nododd y Cadeirydd na fu unrhyw gyfarfodydd y gellid adrodd arnynt dros fisoedd yr haf ond cyfeiriodd at y digwyddiadau canlynol sydd ar y gweill.

- Cyfarfod Cadeiryddion Magnox – 5 Tachwedd 2021
- Uwchgynhadledd Rithiol yr NDA, 26 Tachwedd 2021
- Cyfarfod Diweddarau Chwarterol Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Magnox 17 Rhagfyr 2021

Cyfeiriodd at ymrwymiad Magnox i ddarparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer holl gyfarfodydd y Grŵp Rhanddeiliaid a diolchodd i Jill Callander am ei chefnogaeth werthfawr. Cyfeiriodd hefyd at y ffaith ei bod wedi bod yn sâl dros fisoedd yr haf oherwydd COVID 19 a dymunodd adferiad llawn a buan iddi hi a'i gŵr.

## 5 **Adroddiad Cyfarwyddwr Safle Wylfa**

Cyflwynodd Stuart Law yr adroddiad cynhwysfawr, a oedd wedi cael ei rannu cyn y cyfarfod. Gellir crynhoi'r adroddiad fel a ganlyn: -

### **COVID 19**

- Mae'n dal yn orfodol gwisgo gorchuddion wyneb mewn mannau cymunedol ar y safle, defnyddio peiriannau puro aer mewn swyddfeydd ac rydyn ni'n parhau i gadw 2 fetr o bellter.
- Cofnodwyd llond llaw o achosion positif ymysg y gweithlu a chontractwyr yn ddiweddar ac fe gymerwyd camau priodol.
- Bellach nid ydym yn defnyddio'r ganolfan brofi a sefydlwyd ar y safle. Rydym yn

annog staff i ddefnyddio Profion Llif Unffordd (LFT) i brofi eu hunain gartref. Yr argymhelliad yw bod pawb yn profi eu hunain ddwywaith yr wythnos, nos Sul a dydd Mercher cyn dod i'r safle. Roedd Stuart Law eisiau diolch i'r grŵp o wirfoddolwyr a fu'n rhedeg y Ganolfan Profion Llif Unffordd dros y misoedd diwethaf, yn ogystal â chyflawni eu rolau arferol.

### **Perfformiad diogelwch**

Cyfradd cyfanswm y digwyddiadau a gofnodwyd (TRIR): 0.00

Cyfradd achosion diwrnodau i ffwrdd (DACR): 0.00

Nifer y diwrnodau ers damwain colli amser: 162 (21.09.21)

Er bod gan safle Wylfa record ddiogelwch ardderchog, cafodd tri o bobl eu hanafu ar safleoedd Magnox yn gynharach eleni. Roedd newidiadau bach i'r gwaith neu'r amgylchedd gwaith yn ffactor, a gellid fod wedi atal y damweiniau pe bai'r newid yn y ffurfweddiad neu'r amodau wedi cael eu herio. Cafodd sesiwn ac ymgyrch ddiogelwch eu cynnal ar draws y cwmni ym mis Mai er mwyn canolbwyntio o'r newydd ar y peryglon pan fydd rhywbeth arall yn mynd â'ch sylw.

### **Pobl**

- Mae'r holl staff diogelwch yn ôl ar y safle'n llawn amser.
- Ar hyn o bryd mae 180 o weithwyr Magnox a naw o weithiwr a gyflenwir gan asiantaeth yn Wylfa. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys 11 o weithwyr newydd yn dilyn ymarfer recriwtio diweddar.
- 1 prentis cynnal a chadw newydd a ddechreuodd yn Wylfa yn gynharach y mis hwn.
- Cynhaliwyd adolygiad o'r swyddfa ac mae ystafell ar gyfer desgiau a rennir (*hot desks*) ar gael i'w harchebu gan unrhyw aelod o staff Swyddfa Cymorth Magnox sy'n parhau i weithio gartref.

### **Cynnydd a chyflawniadau'r safle**

#### Llawr Dadawyru

- Dyfarnwyd contract i Altrad er mwyn tynnu'r holl ddeunydd sy'n cynnwys asbestos o ardal y llawr dadawyru yn Neuadd y Tyrbîn.
- Altrad fydd Prif Gontractwr y contract hwn, a hynny am y tro cyntaf yn Wylfa, sy'n golygu ei fod wedi'i benodi'n ysgrifenedig gan Magnox i gynllunio, rheoli, monitro a chyflawni'r prosiect hwn. Mae'r cwmni wedi paratoi tîm pwrpasol ar gyfer y prosiect, cynhyrchu'r holl ddogfennau angenrheidiol, caffael/llogi offer a deunyddiau, a pharatoi'r ardal waith yn barod ar gyfer y strwythurau sgaffaldiau mawr a fydd yn cael eu codi.
- Cafodd offer asbestos ei gludo o Dungeness i Wylfa i'w aildefnyddio a wnaeth arbed bron i £80,000 i'r prosiect.

#### Glanhau ar ôl Gweithredu

- Mae batris gêr switsh 110v tyrbinau nwy wedi cael eu tynnu fel rhan o'r prosiect hwn, yn ogystal â'r gwaith parhaus o symud eitemau gwaddol o adeilad yr adweithydd.
- Mae'r cyfleuster hyfforddiant cyfarpar anadlu wedi cael ei wagio.
- Cafodd naw hen gaban symudol eu prynu a'u symud gan OBR a Caernarfon Commercials i'w hadnewyddu a'u haildefnyddio.
- Mae deg caban symudol newydd ar gyfer contractwyr wedi cyrraedd yn eu lle, sydd â goleuadau synhwyro symudiad, ffenestri plastig gwydr dwbl a ffaniau awyru. Maen nhw wedi'u paentio â phaent morol i wrthsefyll y tywydd arfordirol.

#### Tynnu Seilwaith

- Dros ei oes weithredol o 40 mlynedd, mae'r safle wedi cronni llawer o wastraff

radiolegol halogedig a chonfensiynol yn y swyddfeydd a'r ardaloedd offer amrywiol.

- Roedd y gwastraff a gasglwyd yn amrywio o offer a darnau sbâr wedi'u halogi a ddefnyddiwyd wrth osod pibellau, i wastraff confensiynol fel gwaith papur a dodrefn mewn swyddfeydd, ac mae'n rhaid clirio'r rhain i gyd.

Adroddodd Mr Law ar y cais cynllunio a oedd wedi cael ei gyflwyno ar gyfer cam 1 y gwaith dymchwel ar y safle, bydd y gwaith dymchwel fydd yn cael ei gwblhau dros y 12 mis nesaf yn cynnwys nifer o adeiladau dros dro fel yr hen floc hyfforddi a strwythurau parhaol fel y gwaith CO2.

### **System Troshaen Trydanol**

- Scottish Power Energy Networks yw'r contractwr y cytunwyd arno ar gyfer y gwaith oddi ar y safle.
- Mae arolygon ecoleg wedi'u cynnal ar y llwybr ceblau arfaethedig ar gyfer y cyflenwad oddi ar y safle.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd gyda'r broses dendro i ddewis cyflenwr ar gyfer y gwaith dosbarthu ar y safle.
- Mae'r safle'n parhau i ddatblygu cwmipas rhesymoli'r byrddau 415v.

### **Pennu Nodweddion Gwastraff Lefel Ganolraddol**

- Mae gwaith yn cael ei wneud i bennu nodweddion gwastraff mewn ardaloedd offer sydd wedi'u hamlygu fel 'poethfannau' o amgylch y safle ac a allai fod yn Wastraff Lefel Ganolradd.
- Mae'r Rhestr Gwastraff Ymbelydrol bresennol ar gyfer y safle yn dangos y bydd angen 11 Cynhwysydd Haearn Bwrw Hydwyth arnom i ddal a storio'r Gwastraff Lefel Ganolraddol hysbys.
- Y strategaeth bresennol yw storio'r gwastraff lefel ganolraddol mewn modd sy'n cydymffurfio ar y safle nes bod Cyfleuster Gwaredu Daearegol (CGD) ar gael rywle yn y DU.
- Dylunio storfa gwastraff lefel ganolraddol ar y safle, fel y rhai sydd wedi cael eu creu mewn lleoliadau eraill yn fflyd Magnox.
- Mae nifer o becynnau gwaith ar wahanol gamau dadansoddi ar hyn o bryd, a gyda hyn mewn golwg, mae'r Prosiect yn targedu canol 2022 ar gyfer llunio gwir restr Gwastraff Lefel Ganolraddol Wylfa.

### **Ailddefnyddio pibellau diangen**

- Ar 21 Mehefin fe wnaeth Ramco, yr arbenigwyr gwaredu asedau, dynnu nifer o ddarnau o bibellau diangen, a oedd yn gysylltiedig â'r cyflenwad porthiant brys i'r tanciau dŵr porthiant crai, i'w haildefnyddio yn y dyfodol ac i ddychwelyd gwerth i'r NDA.
- Cafodd tua 100 o ddarnau o bibellau eu llwytho'n ddiogel ar drafnidiaeth Ramco, ynghyd â set o gloriannau Avery mawr.
- Nodwyd a chydabuwyd y gellir aildefnyddio ein hoffer diangen a dychwelyd gwerth i'r cwmni er mwyn galluogi gweithgareddau datgomisiynu pellach.

### **Adroddiad Economaidd-gymdeithasol**

Tynnodd Mair Jones sylw at y canlynol: -

- Mae Magnox wedi cefnogi Môn CF yn y gorffennol gyda'r 'Rhaglen Taith i Waith' ac wedi sicrhau dwy swydd yn yr Academi wrth symud i safle newydd. Mae'r rolau hyn bellach yn gynaliadwy y tu hwnt i gyllid Magnox. Fe wnaeth y cyllid alluogi 450 o gyfranogwyr i ennill cymwysterau ar draws Ynys Môn a symud 240 o bobl i mewn i

waith yn 2020/21 yn unig.

- Mae Môn CF wedi sicrhau cyllid i brynu'r hen fanc Barclays gwag yn Amlwch ac yn ddiweddar, gyda chymorth drwy'r cynllun economaidd-gymdeithasol, mae wedi cymeradwyo £98,000 gan Magnox i helpu gyda'r gwaith o'i drawsnewid yn 'ganolfan aml-asiantaeth', gan greu pedair swydd ychwanegol.
- Yn ddiweddar, cafodd adran iau Clwb Pêl-droed Bae Cemaes £535 gan gynllun economaidd-gymdeithasol Magnox i brynu offer hyfforddi ychwanegol. Fe wnaeth 60 o beli newydd a dwy gôl helpu i fodloni'r galw a chynyddu nifer yr aelodau o 30 i 80 o blant, yn ogystal â galluogi'r clwb i groesawu grŵp ychwanegol o blant iau.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Law a Mair Jones am eu diweddariadau. Holodd hefyd ynghylch y posibilrwydd o godi'r terfyn ar gyfer cyllid Cymydog Da o £1K i £1.5K/£2K. Roedd consensws o fewn y grŵp i wneud hyn a bydd cais swyddogol yn cael ei gyflwyno i Magnox maes o law. **CAM GWEITHREDU - Mair Jones a Bill Hamilton i fwrw ymlaen â hyn.**

## Sesiwn Holi ac Ateb

Dymunai'r Cyng. Derek Owen, Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanbadrig, ganmol Mr Law a'i staff am sicrhau diogelwch trigolion Llanbadrig. Cyfeiriodd hefyd at y dyfalu bod Rolls Royce yn dangos diddordeb mewn sefydlu adweithydd modiwl bach ar y safle. Cadarnhaodd Stewart Law nad oedd wedi siarad â Rolls Royce ynglŷn ag adweithydd modiwl bach. Fodd bynnag, nododd ei fod wedi ymateb i gwestiynau gan Shearwater, Cwmni o UDA, fel yr adroddwyd yn y cyfryngau yn barod.

Croesawodd y Cyng. Ken Hughes y newyddion am brentisiaethau a gofynnodd a oedd y rhain yn bobl ifanc lleol. Cadarnhaodd Mr Law fod pob un yn drigolion Ynys Môn.

Croesawodd y Cyng. G O Jones hefyd y datblygiadau ynglŷn â phrentisiaethau.

Holodd y Cyng. Dafydd Griffiths am storio gwastraff lefel ganolraddol. Dywedodd Stewart Law y bydd y prosiect hwn yn cadarnhau a yw'r stocrestr go iawn yn fwy ac os felly, faint mwy fydd ei angen i allu adeiladu cyfleusterau storio addas ar gyfer y cynwysyddion, gan mai'r strategaeth bresennol yw storio Gwastraff Lefel Ganolraddol ar y safle mewn modd sy'n cydymffurfio nes bod Cyfleuster Gwaredu Daearegol (GDF) ar gael rywle yn y DU. Nododd hefyd, yn ôl tybiaeth cynllunio'r NDA, y gallai'r cyfleuster gwaredu daearegol fod ar gael mewn 20 mlynedd, gan nodi mai tybiaeth yw hyn ar hyn o bryd. Cadarnhaodd Mr Law wrth yr aelodau hefyd, er na allai roi sicrwydd ar y dyddiad y byddai'r cyfleuster gwaredu daearegol ar gael, y byddai unrhyw wastraff lefel ganolraddol bob amser yn cael ei storio mewn modd diogel yn Wylfa.

## 6 Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear

Croesawyd Mr J Jenkin i'r cyfarfod a chyflwynodd ei gydweithiwr Simon Napper. Rhoddodd Mr Jenkin grynodedb byr o'r adroddiad a ddisbarthwyd eisoes i'r aelodau.

### COVID 19

- Gweithlu'n dal i weithio gartref i raddau helaeth
- Dychwelyd i swyddfeydd yn raddol ac wedi'i reoli o 2 Awst 2021 ymlaen
- Bydd yn parhau i fabwysiadu cymysgedd o waith cartref a swyddfa yn seiliedig ar agwedd hyblyg ac anghenion y busnes
- Dychwelyd i fwy o ymgysylltu allanol wyneb yn wyneb ar sail trafodaethau gyda



rhanddeiliaid

### **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon**

- Cyhoeddwyd ar 21 Gorffennaf
- Cynnydd parhaus er gwaethaf effaith COVID-19
  - Lleihau peryglon yn Sellafield a Dounreay
  - Adenillion gwastraff tramor
  - Strwythur Grŵp Newydd
- Cyfanswm gwariant yn is na'r disgwyl - £3.059bn o gymharu â £3.486bn
- Incwm o £612m

### **Strategaeth yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear**

- Cyhoeddwyd Strategaeth 4 yr NDA ar 18 Mawrth yn dilyn cymeradwyaeth y Gweinidog
- Cyhoeddwyd Strategaeth Ddrafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos rhwng 17 Awst a 8 Tachwedd
- Cafwyd 71 o ymatebion i'r ymgynghoriad
- Cyhoeddwyd dogfen ymateb rhanddeiliaid ochr yn ochr â'r Strategaeth

### **Cynllun Busnes Drafft 2021-24**

- Cyhoeddwyd ar 22 Mawrth
- Ymgynghori o fis Rhagfyr i fis Chwefror
- Amlinellu'r prif weithgareddau a'r cynnydd ar draws grŵp yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear ar gyfer y tair blynedd ariannol nesaf, yn unol â setliad yr Adolygiad o Wariant
- 16 o ymatebion i'r ymgynghoriad – y crynodeb wedi'i gynnwys yn y Cynllun Busnes

### **Adroddiad Cynaliadwyedd yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear**

- Cyhoeddwyd Adroddiad Cynaliadwyedd cyntaf yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear ar 8 Mawrth
- Buddsoddi mewn pobl, cymunedau a gwarchod yr amgylchedd i'w ddefnyddio yn y tymor hir
- Nodi cyfleoedd a phrosiectau allweddol i wella cynaliadwyedd ar draws grŵp yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear

### **Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau**

- Cafodd adroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau ar gyfer grŵp yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear a'r ganolfan gorfforaethol ei gyhoeddi ar 24 Mawrth 2021.
- Mae'r bwlch cyflog, ar draws y grŵp, yn 13.1% (cymedr) ac yn 12.4% (canolrif) – gostyngiad bach o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol
- Mae 5 maes ffocws i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

### **Strategaeth Cynhwysiant Grŵp yr NDA**

- Mae'r NDA wedi cyhoeddi ei strategaeth cynhwysiant grŵp cyntaf ar gyfer 2021-25
- Mae'n adeiladu ar strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gyntaf yr NDA a lansiwyd yn 2018
- Mae pum maes ac ymrwymiad a fydd yn blaenoriaethu sut rydym yn gwreiddio cynhwysiant yn ein diwylliant grŵp
- Mae'n cynnwys nodau y bydd ein cynnydd yn cael ei fesur yn eu herbyn ac a fydd yn cael eu defnyddio i adrodd ar gynnydd

### **Datblygu Grŵp yr NDA**

- Cyhoeddi tîm newydd ar gyfer grŵp yr NDA – Tîm Arwain Grŵp yr NDA

- Yn cyd-fynd â'r newid i fodel is-gwmni newydd er mwyn manteisio i'r eithaf ar weithio fel grŵp
- Yn cynnwys Prif Weithredwr a swyddogion gweithredol canolfan gorfforaethol yr NDA a Phrif Weithredwyr/Rheolwyr Gyfarwyddwyr cwmnïau gweithredu'r grŵp
- Penodwyd Dr Adrian Simper i swyddi ar y cyd fel Prif Gynghorydd Gwyddonol yr NDA a Phrif Gynghorydd Niwclear BEIS

### **Storfa Gwastraff Lefel Isel**

- Daeth yn is-gwmni gweithredol i'r NDA ar 12 Gorffennaf
- Mae'n dilyn Dounreay yn dod yn is-gwmni i'r NDA ym mis Mawrth
- Carreg filltir bwysig o ran adeiladu Grŵp NDA cryfach
- Cam tuag at greu un is-adran wastraff yn gynnar y flwyddyn nesaf gan ddod â'r Storfa Gwastraff Lefel Isel a Rheoli Gwastraff Ymbelydrol at ei gilydd

### **Dounreay**

- Trosglwyddwyd Dounreay i berchnogaeth yr NDA ar 1 Ebrill 2021
- Cam pellach at greu grŵp newydd o gwmnïau gweithredu gan yr NDA
- Bydd rhagor o gydweithio rhwng cwmnïau gweithredol yr NDA a gwell ffocws ar gyflawni ein cenhadaeth
- Cyhoeddwyd bwriad i gyfuno Dounreay â Magnox

### **Atebion Trafnidiaeth Niwclear**

- Lanswyd cwmni trafndiaeth grŵp newydd yr NDA ar 30 Ebrill
- Mae'n dod â'r holl fusnesau trafndiaeth at ei gilydd – Direct Rail Services, International Nuclear Services a Pacific Nuclear Transport Ltd – i greu un sefydliad
- Penodwyd Wanda Goldwag yn Gadeirydd NTS ar 18 Mai

### **NDA i Ddatgomiynu safleoedd Adweithyddion Nwy Uwch**

- Mae'r llywodraeth wedi cyfarwyddo'r NDA i gymryd perchnogaeth ar saith safle EDF AGR ar gyfer eu datgomiynu
- Bydd Magnox Ltd yn gyfrifol am ddatgomiynu'r saith safle ar ôl gwagio tanwydd
- Testament o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad grŵp NDA – a hyder y llywodraeth yng ngallu'r NDA
- Rydym yn edrych ymlaen at weithio gydag EDF Energy i sicrhau bod y gorsafoedd yn cael eu trosglwyddo'n ddi-dor dros y blynyddoedd nesaf

### **Gweithgor Theddlethorpe**

- RWM yn croesawu greu Gweithgor Theddlethorpe
- Mae'n cynnig llwyfan ar gyfer dechrau trafodaethau lleol ar y posibilrwydd o leoli cyfleuster gwaredu daearegol
- Mae'n nodi'r man cychwyn mewn proses archwilio, canfod ffeithiau a thrafod
- Dau weithgor presennol yn Cumbria – Copeland ac Allerdale

### **Fframwaith Gwerth yr NDA**

- Cyhoeddwyd y fersiwn ddiweddaraf ym mis Hydref
- Mae'n diffinio'r ffactorau y mae opsiynau strategol yn cael eu gwerthuso yn eu herbyn a'r nod yw sicrhau ein bod yn darparu gwerth am arian
- Tryloywder yn ein penderfyniadau
- Nid yw gwerth am arian yn golygu sicrhau'r gost isaf – mae'n golygu defnyddio adnoddau mewn ffordd sy'n sicrhau'r gwerth gorau posibl

### **Ymchwiliad Magnox ac Adroddiad Adolygiad Adrannol**

- Mae'r llywodraeth a'r NDA wedi cyhoeddi eu hymatebion i Ymchwiliad Magnox a'r

- Adolygiad Adrannol (Adroddiad Holliday)
- Mae'n croesawu argymhellion yr adroddiadau
- Mae cynnydd sylweddol ers 2017:
  - Model gweithredu newydd
  - Swyddogaethau cyfreithiol, masnachol a sicrwydd cryfach
  - Tîm Arwain y Grŵp

### **Cystadleuaeth Arloesedd yr NDA**

- Lansiwyd cystadleuaeth 'didoli a gwahanu' ym mis Gorffennaf 2020
- Gwahodd atebion technolegol i ddioli a gwahanu gwastraff ymbelydrol yn y safleoedd niwclear hynaf
- Cynyddodd y gwerth o £3.9m i £5.5m
- Enillodd 5 cwmni gontractau sy'n werth hyd at £900k i greu arddangoswyr ar gyfer eu syniadau
- Bydd yn gweithio ar bentwr cymysg o wastraff ymbelydrol – cynyddu cyfraddau ailgylchu, lleihau nifer y cynwysyddion gwaredu gwastraff a lleihau peryglon
- Dyma'r cwmnïau llwyddiannus:
  - Cavendish Nuclear Ltd
  - Barnnon Ltd
  - Create Technologies Ltd
  - Atkins Ltd
  - Veolia Nuclear Solutions (UK) Ltd

Yn olaf, rhannodd Mr Jenkin fanylion digwyddiad cadwyn gyflenwi'r NDA fel a ganlyn:-

- Dyddiad newydd – 3 Chwefror 2022 – yn The International Centre, Telford
- Wedi'i ohirio o fis Mehefin 2020 oherwydd y pandemig Covid
- Bydd Seremoni Wobrwyo'r Gadwyn Gyflenwi ar yr un diwrnod – y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 12:00 ar 1 Hydref 2021.
- Dyma'r digwyddiad mwyaf ar gyfer y sector cadwyn gyflenwi yn Ewrop, gyda 1,700 o ymwelwyr a dros 300 o gyflenwyr.

### **Sesiwn Holi ac Ateb**

Dim wedi'u derbyn

Diolchwyd i Mr Jenkin am ei gyflwyniad a dymunwyd yn dda iddo yn ei secondiad 2 flynedd i BEIS

## **7 Diweddariad gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear**

Croesawyd Mr Ian Dallas i'r cyfarfod a chyflwynodd y wybodaeth ganlynol:-

- Mae swyddfeydd y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear wedi ailagor ond mae'r gweithwyr yn parhau i weithio gartref ar y cyfan.
- Mae'r archwiliadau wyneb yn wyneb wedi aildechrau
- Doedd dim materion cydymffurfio yn Wylfa gyda phob Archwiliad ers yr adroddiad diwethaf wedi'i raddio'n wyrdd.

### **Sesiwn Holi ac Ateb**

Ni chodwyd unrhyw fater

## **8 Diweddariad Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd**

Croesawyd David Wilby, Cyfoeth Naturiol Cymru a Rona Arkle, Asiantaeth yr Amgylchedd, i'r cyfarfod. Dywedodd Rona Arkle fod David Wilby wedi cymryd drosodd gan Iwan Williams fel Arweinydd Gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Wylfa a Thrawsfynydd.

Aeth yn ei blaen i grynhoi'r adroddiad a ddosbarthwyd eisoes i'r aelodau.  
Dyweddod:

- Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Awst 2021. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r rhan fwyaf o'n gweithgareddau rheoleiddio wedi cael eu cynnal o bell oherwydd y cyfyngiadau a osodwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.
- Ar ôl dychwelyd i'r safle ym mis Awst 2020, mae gwaith cynnal a chadw arferol wedi aildddechrau, ac mae'r ôl-groniad o waith wedi cael ei gwblhau i raddau helaeth.
- Mae'r gwaith o fonitro ac adrodd ar ollyngiadau ymbelydrol wedi aildddechrau, ynghyd â'r rhaglen monitro amgylcheddol.
- Mae'r llwythi gwastraff wedi aildddechrau, ac mae'r monitorau sy'n cael eu defnyddio i glirio gwastraff sydd y tu allan i gwmpas y rheoliadau sylweddau ymbelydrol wedi cael eu disodli yn dilyn materion a ddatblygodd yn ystod y saib.
- Mae Cynllun Ansawdd wedi cael ei ddatblygu ar gyfer unrhyw oedi ac ailgychwyn yn y dyfodol; mae'n cymryd i ystyriaeth yr hyn a ddysgwyd o'r saib gweithredol yn 2020
- Cynhaliwyd arolwg o ddiwylliant ac arweinyddiaeth amgylcheddol ym mis Mehefin 2021, yn rhannol drwy gyfarfodydd MS Teams ac yn rhannol ar y safle.
- Roedd gollyngiadau ymbelydrol i'r aer a'r dŵr o Wylfa yn llawer is na'r terfynau a ganiateir yn ystod y cyfnod adrodd hwn.
- Roedd gollyngiadau anymbelydrol i'r dŵr hefyd o fewn y terfynau a ganiateir.
- Monitro amgylcheddol – yn chwarter olaf 2020, fe wnaeth dau TLD1 i'r gogledd orllewin o'r safle gofnodi cyfraddau dos dyddiol cyfartalog a oedd yn uwch nag arfer. Nid oedd unrhyw newid ym mhatrwm y gollyngiadau o Wylfa ac ni chofnodwyd unrhyw ganlyniadau uwch gan y TLD ar berimedr y safle, felly nid yw'n ymddangos bod hyn yn gysylltiedig ag unrhyw weithgareddau sy'n digwydd ar y safle.
- Roedd y canlyniadau monitro amgylcheddol eraill yn unol â'r rhai o gyfnodau blaenorol ac nid ydynt yn dangos unrhyw achos pryderu.

### **Sesiwn Holi ac Ateb**

Ni chodwyd unrhyw fater

Diolchwyd i Rona Arkle a David Wilby am eu presenoldeb a'r wybodaeth ddiweddaraf.

### **12 Sesiwn Holi ac Ateb Fforwm Agored – ni chodwyd unrhyw fater**

### **13. Unrhyw Fater Arall**

Nododd y Cadeirydd fod Ifer Gwyn wedi bod yn bresennol ar gyfer rhan o'r cyfarfod a diolchodd iddo am ei waith gyda Horizon a'r grŵp rhanddeiliaid a dymunodd yn dda iddo ar gyfer y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a chaeodd y cyfarfod am 15:05

**Dyddiadau'r Cyfarfodydd Nesaf – 10 Chwefror 2022  
08 Medi 2022**